# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023

Amser: 09.00 – 09.09

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- ~~Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (10 5 munud)~~ *Gohiriwyd gan 12 Rhagfyr*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.30pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023**

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Newid yn yr Hinsawdd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar 'Mwy na geiriau 2022-27' (30 munud)
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (10 5 munud)
- Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn gofyn am gytundeb y Senedd i gyflwyno Bil Aelod - Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru) (60 munud)
- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru (60 munud)~~ *Gohiriwyd*
- ~~Dadl Fer: Peter Fox (Mynwy) (30 munud)~~ *Tynnwyd yn ôl*

Trefnwyd y busnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 10 Ionawr 2024 -**

- Dadl ar adroddiad Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 1 Mawrth 2024 i gyflwyno adroddiad.

### 4.2 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio ynghylch amserlen Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Trafododd y Pwyllgor Busnes ymateb gan y Pwyllgor Biliau Diwygio a chytunodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd yn gwneud cais am slot cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan Bwyllgor y Llywydd iddo allu cwrdd brynhawn dydd Llun 22 Ionawr 2024. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor barhau i ofyn am slotiau cyfarfod amgen pan fydd angen iddo gwrdd y tu allan i'w slot cyfarfod penodedig.